Cyngor Cymuned
EGLWYS BACH
Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 06-04-21 – 7.30pm**

**(Cyfarfod Skype)**

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Cynghorwyr Gwilym Williams (Cadeirydd), John Emlyn Jones, Ceri Leeder, Wendy Williams, John Lloyd Williams, Geraint Owen, Gwyn Jones, Arthur Williams, Gwenan Roberts a Delyth Wynne (Clerc) |
| **Ymddiheuriadau** | Cynghorydd Austin Roberts. |

1. **CROESO**

   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod.

2. **YMDDIHEURIADAU**

   Noder uchod.

3. **DATGAN DIDDORDEB**

   Dim.

4. **COFNODION** – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (02/03/21).

   Cynigwyd cofnodion 02/03/21 yn gywir gan Cyng John Lloyd ac eiliwyd gan Cyng Ceri.

5. **MATERION YN CODI**

   - **Rheoliadau Ariannol:**

     Derbyniwyd y rheoliadau gan y Cynghorwyr.

   - **Rheolau Sefydlog:**

     Derbyniwyd yr rheolau gan y Cynghorwyr.

   - **Adolygu Asesiad Risg:**

     Eitem agenda mis Mai.

   - **Costau Claddu:**

     Cafwyd trafodaeth. Cyng John Lloyd yn cynnig cadw'r costau yr un fath. Cyng Geraint yn cynnig codi'r costai ynghyd â chwyddiant. Cyng Gwyn yn eilio. Y Cynghorwyr yn cytuno codi'r costau 2.5%:

Prisiau cyn y codiad:

- Claddu oddi fewn i'r plwyf - £331;
- Claddu oddi tu allan i'r plwyf - £441;
- Claddu yn dilyn ymlosgiad oddi fewn i'r plwyf - £147;
- Claddu yn dilyn ymlosgiad oddi tu allan i'r plwyf - £300;
- Gosod Carreg fedd - £126;
- Gosod carreg fedd yn dilyn ymlosgiad - £90.

- **Adroddiad Cae Chwarae*:***

  - Llechi 13ml i'w archebu – anfoneb ar y ffordd (y llechi ym mhris y contractwr). Mae David Dudley, Arolygydd Maes Chwarae wedi cynghori llechi 13ml. Gwybodaeth i'w hychwanegu at yr asesiad risg);
  - Bwrdd picnic - derbyniwyd anfoneb;
  - Cyng Ceri wedi ysgrifennu at CBSC am y grant gan nad yw wedi'i wario eto.

- **Pryderon goryrru yn y pentref*:***

  Derbyniwyd e-bost gan breswylydd ynghylch terfynau cyflymder, yn enwedig ar gyfer Ffordd Tŷ Gwyn. Mae'r mater eisoes wedi'i drafod mewn cyfarfod blaenorol. Y Clerc i drosglwyddo pryderon i Adran Briffyrdd CBSC. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd yn cynnal ymgynghoriad cenedlaethol. Y Clerc i gysylltu â PCSO Delia Belis i gynnal gwiriadau cyflymder pellach.

- **Heol Martin – perchnogaeth tir:**

  Ymholiad gan breswylydd ynglŷn â pherchnogaeth darn o dir gwyrdd yn Heol Martin. Y Clerc i gysylltu â'r Adran Ystadau, CBSC i holi.

- **Llwybyr Bryn Hir*:***

  E-bost gan breswylydd ynglŷn â'r angen i dorri'r clawdd ar hyd y lan y tu ôl i'r tai fel bod beiciau sy'n mynd i lawr llwybr Bryn Hir ar y llwybr rhwng y bont gerrig a'r bont bren, gobeithio, yn teithio ar hyd yr afon unwaith y byddai wedi'i thorri. Mae'r beiciau'n niweidio'r llwybr a atgyweiriwyd yn daclus ac maent hefyd yn berygl i gerddwyr.

  Cyng Austin i gysylltu efo Emyr Jones, CBSC.

- **Gwobr Pentref Conwy 2021:**

  Cynigodd Cllr John Emlyn i adael y wobr am y flwyddyn. Cyng Arthur yn eilio. Yr holl Gynghorwyr yn cytuno.

- **Awdit 19/20:**

  Adroddodd y Clerc bod y cyfrifon yn barod. Y Clerc i rannu'r cyfrifon gyda Cyng John Emlyn.

6. **CYNLLUNIO**

   Dim.

7. **ADRODDIAD ARIANNOL**

   Cyfredol - £6,462.17
   Angladdau - £652.20
   Cadw - £2,078.21

   **Taliadau Ar-lein:**
   **Cyfredol:**
   - Delyth Wynne (Clerc) - £200.00
   - G W Jones (Bwrdd Picnic) – £500.00

   **Angladdau:**
   - Dim.

8. **GOHEBIAETH**

   - **E-Bost: Un Llais Cymru - Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021:**
     Noder er gwybodaeth.

   - E**-Bost: Awdit Cymru – Rhybudd Archwilio 2021:**
     Noder er gwybodaeth.

9. **UNRHYW FATER ARALL**

   - E-bost gan breswylydd – angen bin baw ci yn Y Graig. Y Clerc i gysylltu gyda CBSC;
   - Cwynion wedi ei derbyn am wweithwyr Cwmni R L Davies yn parcio ar y ffordd ac yn culhau y ffordd wrth Bodnant. Y Clerc i gysylltu gyda Cwmni R L Davies.
   - Cynllun Llifogydd Afon Hiraethlyn – mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn cais CBSC i wneud astudiaeth a chynllun newydd ar gyfer y llifogydd. Bydd CBSC yn cynghori gyda'r Cyngor Cymuned a preswylwyr perthnasol yn Heol Ffynnon Asa. Os ydy'r cynllun yn cael ei dderbyn bydd y gwaith yn cychwyn ac yn gorffen erbyn 2022/23.
   - Tyllau ar y ffordd wrth Hen Efail.
   - Goledau stryd tu allan i Henblas/Llais Afon ddim yn gweithio ers 3 diwrnod.
   - Dwr dal yn hel wrth Henblas. Dwr yn hel yn y cae dros y ffordd. CBSC wedi bod yn gweithio yn is i lawr ond ddim wedi datrys y broblem.

10. **DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF**

04/05/21
01/06/21
06/07/21
07/09/21
05/10/21
02/11/21
07/12/21

Daeth y cyfarfod i ben am 8.20 o'r gloch.